PET(4) WPI 30
Y Pwyllgor Deisebau

Ymgynghoriad ar ddeiseb P-03-262 Academi Heddwch Cymru
Ymateb gan y Parchedig Dr Owen E. Evans


Oddi wrth/*From*
**Y Parchedig Ddr/ *The Reverend Dr* Owen E. Evans**
[redacted]


1 Rhagfyr 2011

Abigail Phillips
Clerc y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Bwyllgor,

Fel aelod o'r *Fellowship of Reconciliation* (rhyng-genedlaethol) ers dros 70 o flynyddoedd, a chyn-lywydd i *Cymdeithas y Cymod yng Nghymru* (ei changen Gymraeg), yr oedd yn dda iawn gennyf glywed eich bod fel Pwyllgor Deisebau wedi penderfynu cynnal ymgynghoriad ar awgrymiadau'r ddeiseb a gyflwynwyd i'r Cynulliad Cenedlaethol yn gofyn iddo sefydlu Academi Heddwch i Gymru, a'ch bod yn gwahodd sylwadau gan unigolion, grwpiau a sefydliadau ar destun y ddeiseb honno.

Anfonaf y gair hwn i fynegi fy nghefnogaeth lwyr i'r ddeiseb dan sylw, a'm hawydd taer am gael gweld ein Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal a hyrwyddo - ym myd yr unfed ganrif ar hugain hon - y traddodiad clodwiw o dystiolaeth a gweithgarwch dros heddwch y byd a chyfiawnder cymdeithasol a hawliau dynol sydd wedi nodweddu cenedl y Cymry dros genedlaethau'r gorffennol. Byddai sefydlu Academi (neu Sefydliad) Heddwch ar y llinellau a ragwelir yn y Ddeiseb yn gymorth gwerhfawr i ddwyn pwysau ar y Cynulliad a chynnig arweiniad iddo ynglyn a mabwysiadu polisiau a fydd yn hyrwyddo achosion heddwch a chyfiawnder.

Byddai Academi neu Sefydliad o'r math a ragwelir yn datblygu'n fforwm i ddwyn ynghyd gynrychiolwyr yr holl bleidiau gwleidyddol, a'r holl amrywiol gyrff llywodraethol. crefyddol, diwylliannol ac addysgol a berthyn i'n cenedl, er mwyn trafod a cheisio darganfod y ffordd i ddatblygu polisiau a fyddai'n hyrwyddo achosion dyngarol, cyfiawn a chymodlon mewn byd llawn terfysg ymrafael, trais, gormes ac anghyfiawnder o bob math, a dioddefaint mor erchyll i filiynnau'r tlodion truain a difreintiedig ar hyd a lled yr hyn a alwn yn "Drydydd Byd".

Yr eiddoch yn gywir,

Owen E. Evans

Owen E. Evans